## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (CHURCH STREET, Y TRALLWNG, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, yn y Trallwng, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A458 o'r enw Church Street, y Trallwng sy'n ymestyn o'i chroesffordd â chyffordd The Cross hyd at bwynt 78 o fetrau i'r gogledd o'r groesffordd honno. Contractwyr y gwaith fydd yn cynnal ac yn rheoli mynediad i eiddo ar Church Street.

Y llwybr arall ar gyfer pob cerbyd arall yw ar hyd Church Bank tua'r gogledd, Salop Road tua'r dwyrain, Mill Lane tua'r de-ddwyrain, Smithfield Road tua'r de hyd at gylchfan Old Smithfield yr A483, y B4381 tua'r de a'r B4381 Severn Road a Severn Street tua'r gogledd-orllewin.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 14 Tachwedd 2022. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 09:00 o'r gloch ar 14 Tachwedd tan 17:00 o'r gloch ar 2 Rhagfyr 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A458 TRUNK ROAD (CHURCH STREET, WELSHPOOL, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is required to undertake works on or near the A458 trunk road at Welshpool, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A458 trunk road known as Church Street, Welshpool that extends from its intersection with The Cross junction to a point 78 metres north of that intersection. Access to properties on Church Street will be maintained and controlled by the contractors for the works.

The alternative route for all other vehicles is via the northbound Church Bank, eastbound Salop Road, south-eastbound Mill Lane, southbound Smithfield Road to the A483 Old Smithfield roundabout, southbound B4381 and north-westbound B4381 Severn Road and Severn Street.

The Order comes into force on 14 November 2022. The temporary prohibition is expected to operate from 09:00 hours on 14 November until 17:00 hours on 2 December 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government